

Trawsblaniad rhan-drwch o'r gornbilen (trawsblaniad endothelaidd)

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio trawsblannu rhan-drwch o'r gornbilen (trawsblannu endothelaidd) yn y GIG. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio trawsblannu rhan-drwch o'r gornbilen (trawsblannu endothelaidd) yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am hwn. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch

helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 8.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am bawb a gaiff y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i storfa wybodaeth ganolog, sef Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblannu'r GIG (www.nhsbt.nhs.uk) er mwyn gallu archwilio diogelwch y driniaeth a/neu pa mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser. Mae NICE wedi annog rhagor o waith ymchwil (edrych ar ganlyniadau hirdymor) ar y driniaeth hon. Dim ond llawfeddygon â hyfforddiant penodol yn y driniaeth hon a ddylai drawsblannu rhan-drwch o'r gornbilen (trawsblannu endothelaidd).

Sylwadau eraill gan NICE

Mae sawl techneg wahanol ar gyfer y driniaeth hon, rhai ohonynt yn dal i ddatblygu. Nododd NICE hefyd y caiff triniaethau yn y gornbilen eu dosbarthu'n risg ganolig o gael y clefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD).

Mae gwybodaeth ddiweddar yn dangos bod goroesiad y grafft yn well ar ôl trawsblannu llawn-drwch y gornbilen nac ar gyfer y driniaeth hon. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth yng ngoroesiad y grafft yn culhau gan fod mwy o brofiad yn cael ei ennill yn y defnydd o'r driniaeth hon. Yn ogystal, gellir ailadrodd y driniaeth hon, lle mae cywiro trawsblaniad llawn-drwch y gornbilen yn anodd. Am y rheswm hwn, mae NICE wedi dweud bod digon o dystiolaeth i'r driniaeth hon gael ei defnyddio yn y GIG, ar yr amod bod gwybodaeth am y driniaeth yn parhau i gael ei chasglu.

Efallai nad dyma fydd yr unig driniaeth bosibl ar eich cyfer. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Trawsblannu rhan-drwch o'r gornbilen (trawsblannu endothelaid)

Yr enw meddygol am y driniaeth hon yw 'trawsblannu endothelaid y gornbilen' neu 'ceratoplasti endothelaid' (a gaiff ei fyrhau weithiau i EK). Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Gall rhai afiechydon achosi i'r adran glir ar flaen y llygad (y gornbilen) gymylu, gan beri i'r golwg bylu. Rhai o'r pethau mwyaf cyffredin sy'n achosi hyn yw nychdod Fuchs (anhwylder genetig) a ceratopathi pothello (y gornbilen yn mynd yn niwlog a achosir gan heneiddio). Cynhelir trawsblannu endothelaid (EK) y gornbilen gyda'r claf o dan anesthetig lleol neu gyffredinol. Mae haen fewnol y gornbilen (yr endotheliwm) yn cael ei thynnu a'i disodli gan adran iach o lygad rhoddwr, gan adael gweddill y gornbilen yn ei lle. Yn wahanol i'r driniaeth safonol (a elwir yn 'ceratoplasti treiddiol' neu PK), pan gaiff trwch llawn y gornbilen ei disodli, nid oes angen pwythau (asiadau) fel arfer ar EK ac mae'n llai ymwithiol. Yn aml bydd angen meddyginiaeth llygad, a allai gynnwys steroidau, ar ôl llawdriniaeth.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu ei bod yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar wyth astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 28 o lygaid, roedd y gallu i weld yn glir ac yn fanwl (craffter golwg) 6 mis ar ôl y driniaeth wedi gwella'n sylweddol mewn 13 o lygaid a driniwyd ag EK ond ddim mewn 15 llygad a driniwyd â PK.

Mewn astudiaeth o 177 o lygaid, roedd craffter golwg 15 mis ar ôl y driniaeth wedi gwella'n sylweddol mewn 129 o lygaid a driniwyd ag EK a 48 o lygaid a driniwyd â PK. Dangosodd yr astudiaeth hon hefyd bod astigmatedd (crymedd afreolaidd o'r gornbilen) yn sylweddol is ar ôl EK nac ar ôl PK.

Nododd un astudiaeth bod y trawsblaniad yn iach flwyddyn ar ôl y driniaeth mewn 77% o gleifion â nychdod Fuchs a gafodd EK ac mewn 98% a gafodd PK. Mewn cleifion a ddatblygodd ceratopathi pothellog yn dilyn gosod lens artiffisial (ceratopathi pothellog ffugffacig) roedd y trawsblaniad yn dal yn iach mewn 79% a gafodd EK ac mewn 88% a gafodd PK.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gellir mesur llwyddiant y driniaeth drwy ddefnyddio sgorau craffter golwg, sgorau ansawdd bywyd, a pha mor gyflym y caiff eglurder golwg ei adennill.

Risgiau a phroblemau posibl

Nododd tair astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 231 o lygaid y bu angen newid o EK i PK mewn 16 o lygaid ac mewn 13 o lygaid roedd angen ail driniaeth trawsblannu endothelaidd y gornbilen.

Mewn astudiaeth arall, roedd gwrthod y trawsblaniad o fewn 2 flynedd yn llai cyffredin mewn llygaid a gafodd driniaeth EK (15 allan o 199 o lygaid) nag mewn llygaid a gafodd driniaeth PK (92 allan o 708 o lygaid).

Mewn astudiaeth o 34 o lygaid a gafodd driniaeth EK, roedd yr haen a drawsblannwyd wedi teneuo 41% o fewn 2 flynedd.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr, yn ogystal â risg o wrthod, o fethiant neu o adleoli'r trawsblaniad, roedd perygl o gymylu lle y gorffwysa'r trawsblaniad yn erbyn gweddill y gornbilen. Gall pob un o'r problemau hyn olygu bod y golwg yn gwaethygu.

Rhagor o wybodaeth am drawsblannu'r gornbilen

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'thrawsblannu endothelaidd y gornbilen'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG195

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8064-2

N1948 1P Jun 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.